# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 6)**

Yn yr erthygl ddiwethaf yn y gyfres hon, rhoddwyd sylw i Peter Price (1739–1821) a'i wraig, Anna Tregelles (1759–1846), Crynwyr a symudodd gyda'u plant o ardal Aberfala (*Falmouth*) yng Nghernyw i ardal Castell-nedd ar ddechrau'r 19eg ganrif, pan ddaeth Peter Price yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. Fel y nodwyd y tro diwethaf, cyfranasant hwy a'u teulu (agos ac estynedig) yn arwyddocaol iawn i fyd masnach a diwydiant, a hefyd yn ddiwylliannol ac yn ddyngarol. Felly, cyn gorffen y gyfres hon, mae'n werth oedi gyda rhai eraill o'r teulu, ac nid lleiaf gydag un o feibion Peter ac Anna, sef Joseph Tregelles Price (1784–1854).

Dilynodd Joseph ei dad yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn 1818 ac aros yn gyfarwyddwr y cwmni hyd ei farw'n ddibriod ddydd Nadolig 1854. Wedi i Peter Price ddod yn rheolwr y gwaith haearn yn 1801, ymestynnodd y gweithgarwch ym Mynachlog Nedd i gynnwys nid yn unig gynhyrchu haearn ond hefyd wneud pob math o offer a pheiriannau yn ogystal; a gwelwyd Joseph yn adeiladu ar waith arloesol ei dad, gan gynyddu'n arwyddocaol rychwant a nifer y peiriannau ager a'r nwyddau a gynhyrchid ganddynt. Cam pwysig yn 1829 oedd dechrau gwneud trenau stêm, ac yno yn 1842 y gwnaed y llong haearn gyntaf yng Nghymru.

Mabwysiadwyd ganddynt y datblygiadau diweddaraf ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg. Roedd Joseph, er enghraifft, yn un o noddwyr y 'British Association for the Advancement of Science', a chyhoeddai eitemau yn nhrafodion blynyddol y gymdeithas honno. Ac o dan arweiniad Peter a Joseph Price roedd ansawdd cynnyrch Gwaith Haearn Mynachlog Nedd mor uchel nes ennill bri rhyngwladol a marchnadoedd mewn llawer rhan o'r byd.

Gwrthwynebai Joseph Price ffurfio undebau llafur, ond fe'i hystyrid, fel ei dad o'i flaen, yn gyflogwr gyda'r tecaf a mwyaf egwyddorol, a lles y gweithwyr yn uchel ar ei agenda. Er enghraifft, bu Peter a Joseph Price ill dau yn frwd dros ddarparu addysg rad ar gyfer plant eu gweithwyr, ac roeddynt yn erbyn y gyfundrefn 'drwco' (neu 'gyfnewid'), lle y telid cyflogau gweithwyr trwy docynnau i'w cyfnewid am nwyddau yn siop y cyflogwr (y 'tommy shop').

Er ei wrthwynebiad i undebau llafur, ymdrechodd Joseph Price yn galed i geisio cael yr awdurdodau gwladol i beidio â dienyddio Dic Penderyn, a oedd wedi ei gyhuddo o drywanu milwr yn ei goes adeg gwrthryfel y gweithwyr ym Merthyr yn 1831. Ar sail ei ymchwil fanwl i'r achos, roedd Joseph yn argyhoeddedig fod Dic yn ddieuog; ond hefyd, fel llawer Crynwr arall, gwrthwynebai ar egwyddor weinyddu'r gosb eithaf.

Ceisiodd Joseph ei orau hefyd i hyrwyddo cytgord cymdeithasol, a hynny mewn cyfnod pan welwyd tensiynau a therfysgu ar gynnydd arwyddocaol yng Nghymru. Ymddengys, er enghraifft, iddo lwyddo i berswadio rhai o gefnogwyr y Siartwyr (gan gynnwys, o bosibl, y cymeriad hynod hwnnw, Dr William Price) i beidio ag ymuno yn yr ymosodiad ar Gasnewydd yn Nhachwedd 1839. Adeg Helyntion Beca, wedyn, aeth Joseph a'i chwaer Junia i Gaerfyrddin yn Awst 1843 i geisio dwyn perswâd ar Derfysgwyr Beca i ymddwyn yn heddychlon, ond hefyd i bwyso ar yr awdurdodau i'w trin mewn ffordd drugarog. Er y cydymdeimlai'n aml ag achos y protestwyr, dadleuai'n gryf bob amser yn erbyn defnyddio trais mewn unrhyw anghydfod.

Mae hyn oll yn pwysleisio un o nodweddion amlycaf Joseph Tregelles Price, sef ei sêl dros achosion dyngarol o bob math. Yn hynny o beth dilynai esiampl ei rieni, oherwydd (fel y nodwyd yn ein herthygl ddiwethaf) roedd Peter ac Anna Price ill dau yn nodedig iawn eu hymdrechion dyngarol. Er enghraifft, mewn cerdd a ysgrifennodd y siopwraig a'r faledwraig o Gastell-nedd, Elizabeth Davies (1772?–1857), er cof am Peter Price, fe ddywed hyn am Peter a'i wraig, Anna, gan gyfeirio at y gwisgo plaen a nodweddai'r Crynwyr yn draddodiadol:




***Murlun ar wal ger Marchnad Caerdydd***
***Llun gan John Levin. Trwydded (cc-by-sa-2.0)***
***https://cy.wikipedia.org/wiki/Dic_Penderyn#/media/Delwedd:Dic_Penderyn_Plaque_(8053781082).jpg.***

*No gaudy dress, nor tawdry tinsel toys,*
*Their minds were fixed on far superior joys;*
*Their time, their talents, and their store*
*Were freely shared with the distressed and poor.*

*Both hand in hand their willing aid afford*
*To spread through foreign parts the word of God;*
*Preaching salvation through the bleeding Lamb,*
*Who for our sins on Calvary was slain.*

Ac uwchben y gerdd, dywedir hyn am Peter Price:

> *He distinguished himself by many acts of charity for the relief of the poor and distressed. He erected a free school for the poor children of the neighbourhood of Neath Abbey; he delighted in supporting Christianity at home and abroad, and was a liberal supporter of the Missionary and Bible Societies.*

Ac fel y gwelwn y rhieni'n ymroi yn ddiwyd i hybu crefydd ac addysg a meysydd dyngarol amrywiol eraill, felly hefyd lawer o'u plant a'u teuluoedd. Yn achos eu dwy ferch ddibriod, Junia (1787–1845) a Christiana (1792–1879), er enghraifft, gwelir cyfeiriadau cyson at eu gwaith yn gweinidogaethu ymhlith y Crynwyr, yn dosbarthu pamffledi yn hyrwyddo Cristnogaeth, heddwch a dirwest, yn gwrthwynebu caethwasiaeth, yn cefnogi addysg i'r tlodion, yn ymweld â charcharorion ac â chleifion, ynghyd ag amryw weithgareddau elusennol eraill.

Soniwyd mewn erthygl flaenorol yn y gyfres hon (yn rhifyn Chwefror 2024) am gefnogaeth angerddol mab-yng-nghyfraith Peter ac Anna Price, Elijah Waring (1787–1857), i Gymdeithas y Beibl a chenadaethau Cristnogol eraill, i'r mudiad i ddileu caethwasiaeth, i'r mudiad heddwch, ac i'r ymgyrchu o blaid diwygio seneddol a rhyddid sifil a chrefyddol. A gwelwn Joseph Price yn ymroi yn fras i'r un meysydd dyngarol â'i rieni, ei chwiorydd a'i frawd-yng-nghyfraith, Elijah.

Er enghraifft, roedd Joseph Price, fel Elijah Waring, yn gysylltiedig â chymdeithas a ffurfiwyd yn y Bont-faen yn 1831 a oedd yn dwyn y teitl 'The Society for the Improvement of the Working Population in the County of Glamorgan'. Roedd Elijah Waring yn gefnogwr brwd i Gymdeithas y Beibl, a ffurfiwyd gan Thomas Charles o'r Bala ac eraill yn 1804, ac erbyn 1810 roedd Peter Price yn aelod o gangen Castell-nedd o'r gymdeithas honno, cangen y bu Joseph ei fab yn drysorydd iddi. Soniwyd eisoes am Joseph a'i chwaer Junia yn ceisio hybu cytgord a thegwch cymdeithasol yng nghyd-destun Helyntion Beca, ac am ymroddiad Joseph, ei dad a'i chwiorydd i ddarparu addysg i'r tlodion, a gellid nodi sawl agwedd arall ar weithgarwch elusennol Joseph. Ac arwydd o'r parch eang i Joseph Price, fel diwydiannwr a dyngarwr, yw'r ffaith fod llong a ataliwyd gan herwlong Ffrengig yn y Sianel wedi ei rhyddhau pan sylweddolwyd mai un o'i longau ef ydoedd.

Ond mae Joseph Price yn fwyaf adnabyddus am ei waith gyda'r mudiad heddwch a'r ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth, ac at hynny y trown nesaf.

(*I'w barhau*)